

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd dros y rhwydwaith fideo am 10.00 ar 14 Chwefror 2017

Yn bresennol:

Aelodau: Yr Athro Iwan Davies
Gareth Eyres
Andrew Green (Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr)

Archwilwyr Allanol: Carol Warburton, KTS Owens Thomas

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Suzanne Lewis, Uwch Swyddog Gweinyddiaeth

Ymddiheuriadau: Geraint James (Cadeirydd)
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Gareth Pierce
William Callaway
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod. 1.3 Nodwyd ymddiswyddiad Geraint James o Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r Pwyllgor Archwilio, yn benodol, dros y chwe mlynedd diwethaf.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol	3.1 Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2016, fel cofnod cywir.		
4. Aelodaeth	<p>4.1 Nodwyd y byddai yna fwch yn sgil ymddiswyddiad Geraint James ac adroddwyd y byddai'r bwch yn cael ei lenwi, yn ôl pob tebyg, yn dilyn penodi cyfarwyddwr annibynnol newydd.</p> <p>4.2 Nodwyd gan yr Ysgrifennydd y byddai angen i'r Pwyllgor Penodiadau baratoi matrices sgiliau o ganlyniad i'r bwch sgiliau maes cyllid a chynllunio ariannol.</p>	Y Pwyllgor Penodiadau i gyfarfod i drafod matrices sgiliau a phenodi cyfarwyddwr. (CR i gydlynu)	
5. Cyllideb y Coleg 2017/18	<p>5.1 Cyflwynwyd papur ar gyllideb y Coleg gan y Cofrestrwydd gan esbonio'r newidiadau yn nhrefniadau cyllido'r Coleg.</p> <p>5.2 Adroddwyd am y trafodaethau sydd wedi digwydd ynghylch proses cyllido'r Coleg wrth i'r rôl cyllido symud i Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2017.</p> <p>5.3 Nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol yn rhedeg o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth. Am y tro, fodd bynnag, byddai blwyddyn ariannol y Coleg yn parhau i fod o 1 Awst hyd 31 Gorffennaf.</p> <p>5.4 Nodwyd y byddai KTS Owens Thomas, archwilwyr mewnol y Coleg, yn adolygu'r cyfrifon ar gyfer diwedd Mawrth er mwyn darparu sicrwydd i'r Cyngor Cyllido a Llywodraeth Cymru ynghylch y sefyllfa gyllidol ar 31 Mawrth 2017.</p> <p>5.5 Cadarhawyd y byddai grantiau yn cael eu talu i'r prifysgolion cyn diwedd Mawrth 2017 ar y Cynllun Staffio Academaidd a'r Gronfa Brosiectau Strategol.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>5.6 Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ir Cynllun Strategol a'r gyllideb drafft a gyflwynwyd ym mis Chwefror.</p> <p>5.7 Nododd y Prif Weithredwr ei ddiolch penodol i Dr Dafydd Trystan a Dr Dylan Phillips am eu gwaith mewn perthynas â chynllunio ariannol mewn perthynas â'r newidiadau cyllido.</p> <p>5.8 Cadarnhawyd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer gwariant cyn diwedd Mawrth 2017.</p>		
6. Y Gofrestr Risg	<p>6.1 Aethpwyd trwy'r risgiau uchel a'r risgiau sy'n newid dan arweiniad y Cofrestrydd.</p> <p>6.2 Derbyniwyd newidiadau i risgiau penodol -</p> <p>6.2.1 Risg Strategol 4: Diffyg dilyniant o ysgolion uwchradd / colegau addysg bellach – Newidiwyd hwn o fod yn risg canolig i fod yn risg uchel.</p> <p>6.2.2 Risg Strategol 15: Diffyg sylw i'r Gymraeg wrth gynllunio'r TEF – Newidiwyd y risg yn ôl i fod yn ganolig yn lle isel.</p> <p>6.2.3 Cytunwyd i adolygu'r gofrestr risg yn dilyn y newidiadau yn y trefniadau cyllido.</p> <p>6.2.4 Cynigwyd defnyddio lliwiau ar y risgiau ar ffurf goleuadau traffig i gyfleu'r risgiau yn well yn y gofrestr risg.</p> <p>6.2.5 Cynigodd yr Athro Iwan Davies y dylid ail-ystyried nifer y risgiau strategol sydd yn ymddangos yn y Gofrestr Risg.</p>	<p>Newid risg strategol 4 o fod yn risg canolig i fod yn risg uchel.</p> <p>Newid risg strategol 15 Diffyg sylw i'r Gymraeg wrth gynllunio'r TEF – Newidiwyd y risg yn ôl i fod yn ganolig yn lle isel.</p> <p>Adolygu'r gofrestr risg yn dilyn y newidiadau yn y trefniadau cyllido.</p> <p>Defnyddio lliwiau ar y risgiau ar ffurf goleuadau traffig i gyfleu'r risgiau</p>	

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	6.3 Cadarnhawyd y gofrestr risg fel cofnod o'r risgiau presennol.		
7. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol 2016/17	<p>7.1 Cyflwynwyd crynodeb o Adroddiad Cynnydd 2016/17 gan yr Archwilwyr Mewnol.</p> <p>7.2 Adroddwyd ar y wahanol brosiectau'r archwiliad mewnol.</p> <p>7.3 <i>Rheolaeth gyllidebol, monitro a'r effaith ar y Cynllun Strategol (Adroddiad Sicrwydd):</i> Darparwyd adroddiad llafar gyda'r adroddiad terfynol i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Mai 2017.</p> <p>7.4 <i>Canghennau - Adolygiad Gweithredol a Strategol:</i> Darparwyd adroddiad briffio i'r cyfarfod.</p> <p>7.5 <i>Mesurau Rheoli Ariannol a Phroses Craidd (Adroddiad Sicrwydd):</i> Nodwyd bod adroddiad terfynol i'w gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mai.</p> <p>7.6 <i>Ysgoloriaethau a Grantiau (Adroddiad Sicrwydd):</i> Oedi o gymharu â'r amserlen wreiddiol o ganlyniad i flaenoriaethu adolygiad o'r canghennau am fod y risg hwnnw yn uwch.</p> <p>7.7 Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r Archwilwyr Mewnol yn ffurfiol am eu gwaith.</p>	<p><i>Canghennau - Adolygiad Gweithredol a Strategol:</i> Papur i Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn cynnig argymhellion ar gyfer datblygiad y canghennau. (IM)</p>	
8. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 1 2016/17 (Awst-Hydref)	<p>8.1 Derbyniwyd adroddiad llafar ar y 3 papur ynghylch y cyfrifon gan Dr Dafydd Trystan.</p> <p>8.2 Nodwyd bod camgymeriad ar y daenlen ar linell 121: Swyddogion Cangen, i fod darllen £26,000 ac nid £500.</p> <p>8.3 Nodwyd bod y Pwyllgor Cyllid mewnol wedi adolygu costau ar gyfer y chwarter nesaf a'u bod yn gyson.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
9. Trefniadau bancio'r Coleg: Adroddiad llafar	9.1 Nodwyd gan yr Ysgrifennydd bod cyfweiliadau gyda dau fanc wedi cymryd lle ar 7 Chwefror ac roedd Gareth Eyres yn bresennol yn y cyfweiliadau. 9.2 Adroddwyd bod y swyddogion yn aros am fwy o wybodaeth gan y banciau cyn gwneud argymhelliad mewn perthynas â threfniadau bancio'r Coleg yn y dyfodol.		
<i>Gadawodd Iwan Davies y cyfarfod ac nid oedd cworwm bellach.</i>			
10. Materion yn Codi	10.1 Nodwyd gan yr Ysgrifennydd ei bod wedi edrych mewn i yswiriant ar gyfer ymosodiad seiber ac nid yw'n bosib cael yswiriant heb fod polisïau a phrosesau penodol mewn lle. 10.2 Adroddwyd bod gweithdrefnau wrthi'n cael eu rhoi mewn lle a'r polisïau'n cael eu paratoi er mwyn galluogi'r Coleg derbyn yr yswiriant priodol am ymosodiad seiber. 10.3 Derbyniwyd sicrwydd gan Dr Dafydd Trystan mai mater o dynhau'r prosesau sy'n bodoli'n barod yn y Coleg sydd angen ei wneud, megis newid cyfrineiriau'n fwy aml a sicrhau eu bod digon cymhleth.	Paratoi'r polisïau a phrosesau sy'n cwrdd â'r gofynion i dderbyn yswiriant ymosodiad seiber. (CR)	
11. UFA	11.1 Ni nodwyd unrhyw fusnes arall.		
12. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	12.1 Nodwyd y cyfarfod canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • 16 Mai 2017, 10.00-12.30 		